



Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ysgol Gymraeg Mornant, Picton

Cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg) o 31 Awst 2016

Fersiwn 2: Diweddarwyd EBRILL 2016

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Crynodeb

1. Enw'r Cynnig/polisi:

Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno gofyn am farn pawb sydd â diddordeb ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton o 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal, yn amodol ar ddewis y rhieni.

Mae'r broses yn dilyn y canllawiau rheoleiddio a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ddydd Mercher, 11 Tachwedd 2015 a daeth i ben ddydd Mercher, 23 Rhagfyr 2015.

Y cynnig yw cau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (Ysgol Gymunedol, Cyfrwng Cymraeg) o 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i'r rhwydwaith lleol o ysgolion ar sail dewis y rhieni.

2. Cyfarwyddiaeth/Adain:

Gwasanaeth Addysg ac Ieuencid.

3. Swyddog Arweiniol:

Ian Budd, Prif Swyddog – Addysg ac Ieuencid.

4. Prif nodau /dibenion/canlyniadau'r polisi:

Cyflwynir y cynnig gan fod yr ysgol yn cyrraedd nifer o drothwyon a nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:-

- Lleoedd gwag ar draws y portffolio ysgolion cynradd – ym mis Ionawr 2015 (CYBLD) roedd 48 disgybl llawn amser yn Ysgol Gymraeg, Mornant, Picton a chanran y lleoedd gwag oedd 57%. Ym mis Medi 2015 roedd 43 o ddisgyblion llawn amser yn yr ysgol, a chanran y lleoedd gwag oedd 61.26% (ar sail asesiad o gapasiti presennol yr ysgol, sef 111 o ddisgyblion llawn amser);
- Meini prawf adnoddau yn lleihau (nifer bach yn y gymuned yn codi pryder ynglŷn â chynaliadwyedd o fewn portffolio'r ysgolion);
- Ysgol fach – Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn llai na'r dynodiad cenedlaethol ar gyfer ysgol fach, hefyd, nid yw'r niferoedd yn yr ysgol yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer modelau ysgolion cynradd fel y'u nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.
- Ar hyn o bryd (Gorffennaf 2015), mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yng nghategori 4 yn system gategoreiddio Llywodraeth Cymru (o 1-4) a 4 yw'r isaf o ran safonau. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei system gategoreiddio bob blwyddyn, ac ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid oedd categori Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, wedi'i adolygu gan Lywodraeth Cymru.

5. A ymgynghorwyd gyda gweithwyr /defnyddwyr gwasanaeth /y cyhoedd / ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig: DO/ NADDO

Naddo

Trefnwyd digwyddiad ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc gydag aelodau Cyngor Ysgol yr ysgolion a enwyd yn y cynnig. Hwyluswyd sesiynau Ysgol Gymraeg Mornant ac Ysgol y Llys gan swyddogion o Gyngor Sir y Fflint y mae eu swyddogaethau yn cynnwys gwaith ymgysylltu ac ymgynghori sydd wedi'u deilwra'n benodol at blant a phobl ifanc. Dewisodd Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon, drefnu ei gwaith ymgysylltu ei hun gyda Chyngor yr Ysgol. Hefyd, cafodd plant a phobl ifanc gyfle i ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a addaswyd ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd cyfle i'r plant a phobl ifanc yn yr ysgolion a effeithiwyd roi eu barn ynglŷn â'r cynnig.

Hefyd, trefnwyd digwyddiad ymgynghori ar gyfer rhieni /gofalwyr/ gwarcheidwaid/ athrawon/ staff cymorth a llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Hwyluswyd hyn gan Swyddogion o Gyngor Sir y Fflint. Cafodd rhieni /gofalwyr /gwarcheidwaid/ athrawon/ staff cymorth a llywodraethwyr gyfle i drafod y cynnig gyda'r Swyddogion. Roedd cyfle i bobl eraill a chanddynt ddiddordeb ymateb trwy'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar bapur ac ar-lein.

Hefyd ymgynghorwyd a rhannwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Cyngor Sir y Fflint, yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Aelodau'r grŵp hwn yw Swyddogion y Cyngor ac aelodau o'r cyhoedd sydd â nodweddiad gwarchoddedig, ac fe wnaethant ystyried yr effeithiau a nodwyd a rhoi adborth ar ddulliau posibl o leihau'r effaith negyddol neu hybu effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a/neu grwpiau gwarchoddedig. Bydd yr asesiad hwn yn broses organig.

Yn sgil cyfarfod gyda'r Grŵp Sicrhau Ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb lluniwyd fersiwn ddiwygiedig (rhif 2) o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig hwn.

Cwblhawyd asesiad manwl ar wahân o'r effaith ar yr iaith Gymraeg a gellir ei weld drwy ddilyn y cysylltiad a ganlyn <http://www.flintshire.gov.uk/moderneiddioysgolion>

6. Beth sy'n cael ei wneud i leihau unrhyw effaith negyddol neu hybu'r effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a/neu grwpiau gwarchoddedig (Gweler adran 2):

Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ym mhentref Gwespyr Picton ac mae'n ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Ar hyn o bryd, mae'n ysgol Categori 4 ym model categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yr ysgolion eraill gerllaw a nodwyd fel ysgolion a allai o bosibl gymryd disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, petai'r ysgol honno'n cau, yw:-

Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon sydd yn nhref Treffynnon, tua 6.69 milltir o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Mae Ysgol Gwenffrwd yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Ar hyn o bryd, mae'n ysgol Categori 3 ym model categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru.

Mae Ysgol y Llys, Prestatyn yn nhref Prestatyn yn ardal Cyngor Sir Ddinbych, tua 4.37 milltir o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Mae Ysgol y Llys yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Ar hyn o bryd, mae'n ysgol Categori 3 ym model categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru.

Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, a'r ysgolion cynradd lleol uchod sy'n debygol o dderbyn disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, pe bai'r ysgol honno'n cau, yn ysgolion cyfrwng Cymraeg cymunedol ac felly nid oes effeithiau negyddol amlwg ar yr iaith Gymraeg.

Gellir gweld yr Asesiad manwl o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg yn y brif ddogfen ymgynghori trwy ddilyn y cysylltiad a ganlyn <http://www.flintshire.gov.uk/moderneiddioysgolion>

7. Sut y bydd y cynigion o gymorth i hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin perthynas dda?


Mae gan yr ysgolion cynradd lleol (Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn) y bydd disgyblion o bosibl yn eu dewis os bydd Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cau, eu datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain. Mae gan bob ysgol ei hethos ei hun o ran hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin perthynas dda.

8. A oes cynllun gweithredu yn ei le?

Oes

Enw: Ian Budd

Llofnod:



Teitl Swydd: Prif Swyddog – Addysg ac Ieuenctid

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (AEG) yw sicrhau bod polisiâu yn helpu i hybu cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg (cwblhawyd asesiad manwl, ar wahân o'r effaith ar yr iaith Gymraeg eisoes). Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cyfrannu at lunio polisi effeithiol trwy roi cyfle i leihau risg a gwneud y mwyaf o fanteision polisi, gan sicrhau felly bod gennym y polisi gorau posibl yn ei le. Mae hefyd yn ein helpu i gyflawni ein gofynion o dan ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. **Trwy gydol y ddogfen hon defnyddiwn y gair 'polisi' i gyfeirio at yr hyn yr ydym yn ei asesu. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term yn cynnwys y gwahanol bethau rydym yn eu gwneud, gan gynnwys strategaethau, swyddogaethau, gweithdrefnau, arferion, penderfyniadau, mentrau a phrosiectau.**

Dylai pob Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ystyried effaith bosibl polisiâu sy'n ymwneud â holl feysydd cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg gan gynnwys hawliau dynol a materion economaidd-gymdeithasol. Wrth gynnal asesiad, dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion. Bydd ein hymagwedd at Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein helpu i gryfhau ein gwaith i hybu cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Bydd hefyd yn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau gwahaniaethol posibl cyn cyflwyno polisi a lleihau'r risg o heriau cyfreithiol posibl. Wrth gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion.

Os bydd prosiect wedi ei gynllunio ar gyfer grŵp penodol, bydd angen i chi hefyd feddwl am yr effeithiau posibl y gall ei gael ar feysydd cydraddoldeb eraill. Mae mwy o gyngor, arweiniad a hyfforddiant ar gael a dylid eu defnyddio wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae'r Asesiad manwl o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w weld yn y brif ddogfen ymgynghori a gellir ei weld trwy ddilyn y cysylltiad a ganlyn <http://www.flintshire.gov.uk/moderneiddioysgolion>

1. Casglu Data a Thystiolaeth

<p>Pa dystiolaeth e.e. data, ymchwil, canlyniadau'r ymgysylltu ac ymgynghori yr ydych wedi'i defnyddio i ystyried sut y gallai'r polisi hwn effeithio ar:-</p> <p>i) bobl â nodweddion gwarchoddedig</p> <p>ii) cyfleoedd i unigolion/cymunedau i ddefnyddio'r Gymraeg</p> <p>Dylech gynnwys cysylltiad i unrhyw ddogfennau perthnasol. Disgrifiwch gyda phwy y buoch yn ymgysylltu â nhw a beth oedd y canlyniadau? (Mae'n ofyniad statudol i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig).</p>	<p>I ddadansoddi'r dystiolaeth ac ystyried yr effeithiau ar ddisgyblion â nodweddion gwarchoddedig, dadansoddwyd data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion neu CYBLD (Ionawr 2015) ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton.</p> <p>Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i</p> <ul style="list-style-type: none">• lefelau cyflawniad disgyblion Ysgol Mornant a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill arfaethedig sydd ar gael• arolygon mynediad Ysgol Mornant a'r dewisiadau amgen eraill• asesiad o'r effaith ar y Gymuned, ac• asesiad o'r effaith ar Gludiant <p>Cwblhawyd y gwaith o ymgynghori a rhannu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda Grŵp Corfforaethol Sicrhau Ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb Cyngor Sir y Flint yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ac aelodau o'r gymuned sydd â nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Hefyd, dadansoddwyd data disgyblion y Gwasanaeth Cynhwysiant. Nid yw'r setiau data yn cynnwys disgyblion meithrin.</p> <p>Dadansoddwyd y gwybodaeth am y gweithlu sydd gan ddim Partner Busnes Adnoddau Dynol.</p> <p>Nid oes data cydraddoldeb ar gael ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol. Cesglir gwybodaeth gan y Llywodraethwyr pan fyddant yn dechrau fel llywodraethwyr newydd ac yn flynyddol. Caiff data eu gasglu yn ddi-enw ac nid yw'n orfodol – nid ellir priodoli'r data sydd ar gael i ysgol benodol.</p> <p>Gellir gweld yr Adborth i'r Ymgynghoriad yn Adroddiad yr Ymgynghoriad trwy ddilyn y cysylltiad y ganlyn:</p> <p>http://www.flintshire.gov.uk/moderneiddioysgolion</p>
<p>Pa ymchwil, data neu ymgynghori ychwanegol sydd ei angen i lenwi unrhyw fylchau o ran deall effeithiau'r polisi?</p>	<p>Adroddiadau arolygu ESTYN</p>

2 Asesu effaith a chryfhau polisi

Mae'r adran hon yn gofyn i chi asesu effaith y polisi ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig a'r iaith Gymraeg. **Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r polisi hwn ar y grwpiau a ganlyn**

Nodwch yr effaith os gwelwch yn dda						
	+ effaith gadarnhaol le/Na	- effaith negyddol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch chi hybu'r effaith gadarnhaol ¹
Oedran <i>(ar draws y sbectrwm oedran cyfan)</i>	le	le	Na	<u>Disgyblion</u> Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn nodi fod 48 disgybl llawn amser (ac eithrio'r Blynyddoedd Cynnar a'r Meithrin) yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, a bod nifer y disgyblion yn y gwahanol grwpiau oedran fel a ganlyn:- Blynyddoedd Cynnar (tua 3 oed) = 0 Meithrin (tua 4 oed) = 5 Derbyn (tua 5 oed) = 3 Blwyddyn 1 (tua 6 oed) = 6 Blwyddyn 2 (tua 7 oed) = 7 Blwyddyn 3 (tua 8 oed) = 5 Blwyddyn 4 (tua 9 oed) = 11 Blwyddyn 5 (tua 10 oed) = 9 Blwyddyn 6 (tua 11 oed) = 7	Mae gan bob Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i gynnig addysg llawn amser i bob plentyn rhwng 5 a 16 oed. Wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion, cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i ddisgyblion megis <ul style="list-style-type: none"> • Llwybr teithio ychydig yn hirach i'r ysgol i ddisgyblion • Amser teithio ychydig yn llai i ddisgyblion sy'n byw yn ardal Sir Ddinbych • Gwisg ysgol newydd • Athrawon a staff cymorth newydd • Amgylchedd dysgu newydd • Gellid effeithio ar grwpiau o ffrindiau, fodd bynnag, gellir gwneud ffrindiau newydd Bydd rhieni/gofalwyr hefyd yn derbyn gwybodaeth a chymorth drwy'r ysgol yn ystod y broses. Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg amgen wedi'i nodi fel Ysgol Gwenffrwd,	Bydd disgyblion ar draws y gwahanol grwpiau oedran yn cael cynnig darpariaeth Ysgol Gynradd amgen a chefnogaeth bontio, gan gynnwys ymweliadau i'r ysgolion amgen a ddewiswyd. Mae gan y Cyngor a'r ysgolion a effeithir ddyletswydd i gefnogi cymorth pontio priodol petai'r ysgol yn cau. Bydd rhieni/gofalwyr hefyd yn derbyn gwybodaeth a chymorth drwy'r ysgol yn ystod y broses.

¹ Pa fesurau sydd wedi eu cynnwys yn y polisi er mwyn helpu i hybu cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, dileu gwahaniaethu a hybu perthynas dda?

			<p>Fe wnaeth adborth gan yr ymgynghoreion a hefyd y grŵp AEG Corfforaethol godi pryderon am yr effaith ar blant ifanc a fyddai'n teithio ymhellach i'r ysgol a'r effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu dengys y lefelau cyflawniad ar gamau allweddol ym mhob un o'r ysgolion amgen y bydd effaith negyddol a bydd yn hybu cydraddoldeb drwy alluogi plant i gael mynediad at ddysgu o ansawdd uchel a gwell canlyniadau.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae 11 aelod staff yn Ysgol Gymraeg Mornant ac maent rhwng 25 a 74 oed.</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol, ond yr isafswm oedran yw 18 oed.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Efallai nad oes gan rai rhieni/gofalwyr/neiniau a theidiau eu dulliau trafndiaeth eu hunain a gall hyn effeithio ar eu gallu i godi/gollwng eu plant ar wahân i'r gwasanaethau cludiant, gall hyn gael effaith ar bresenoldeb yn ystod digwyddiadau.</p>	<p>Treffynnon (cyfrwng Cymraeg) ac Ysgol y Llys, Prestatyn.</p> <p>Mae Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol y Llys yn cynnig darpariaeth cyn-ysgol ar eu safleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Gymraeg Mornant gan gynnwys staff dysgu a chymorth, ac yn rhoi cymorth iddynt petai'r staff yn dymuno chwilio am gyfleoedd adleoli.</p> <p>Efallai y bydd cyfle i staff a gaiff eu disodli weithio yn y rhwydwaith cynradd lleol, neu ystyried dewisiadau ymddeoliad. Mae gan yr Ysgol ei bolisi ei hun i gefnogi staff sydd mewn perygl o gael eu diswyddo gan gynnwys rhoi cymorth iddynt chwilio am waith arall addas.</p>	
--	--	--	--	---	--

	+effaith gadarnhaol le/Na	-effaith negyddol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch chi hybu'r effaith gadarnhaol ²
Anabledd	le	le-	le	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Mae CYBLD Ionawr 2015 yn cadarnhau bod llai na 10 disgybl yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton sydd â Datganiad o Anghenion Arbennig.</p> <p>Yn ogystal, mae 12 disgybl nad oes ganddynt ddatganiad o addysg arbennig ond sy'n derbyn rhywfaint o gymorth ar hyn o bryd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).</p> <p>* Mae'r set data hwn wedi'i osod ar lai na 10 gan y gallai hyn arwain at adnabod disgyblion unigol oherwydd y nifer bach yn y garfan gysylltiedig.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Dengys yr ystadegau am y gweithlu fod y staff a ganlyn wedi datgan fod ganddynt anabledd.</p> <p>Dim = 81.62%</p> <p>Heb nodi = 18.18%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p>Ar sail gwybodaeth y cyfrifiad a gwybodaeth am y staff a'r Llywodraethwyr, nid oes dim</p>	<p>Mae gan Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor sawl gwasanaeth cydberthynol arbenigol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaeth Cyngori Pobl Ifanc, Gwasanaeth Synhwyrdd, Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Gwasanaeth Sipsiwn-Teithwyr, Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, Gwasanaeth Lles Addysg, Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Gwasanaeth Cyflwr y Sbectwm Awtistiaeth.</p> <p>Maent yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru (2002) ac wedi ymrwymo i ddatblygu polisiau ac arferion sy'n sicrhau cyfle cyfartal addysgol a mynediad, ynghyd â diogelu disgyblion sy'n agored i niwed. Mae yna hefyd bwyslais clir ar godi cyflawniad pob dysgwr a'u hannog i gymryd rhan yn eu hysgolion a chymunedau lleol.</p> <p>Mae cefnogaeth drwy Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor ar gael i blant a phobl ifanc ym mhob un o'i lleoliadau addysg, h.y. Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, Ysgolion Arbenigol a'r Portffolio Unedau Cyfeirio Disgyblion.</p> <p>Mae Gwasanaethau Cynhwysiant Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn darparu gwasanaethau</p>	<p>Bydd disgyblion ar draws y gwahanol grwpiau oedran yn cael cynnig darpariaeth Ysgol Gynradd amgen a chymorth pontio. Mae'r ddarpariaeth amgen wedi'i hadnabod fel Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon (cyfrwng Cymraeg) ac Ysgol y Llys, Prestatyn (cyfrwng Cymraeg)</p> <p>Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i amharu cyn lleied â phosibl ar bob disgybl gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Dylai unrhyw ddisgybl ag ADY sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar hyn o bryd dderbyn yr un cymorth yn ei amgylchedd dysgu newydd.</p>

² Pa fesurau sydd wedi eu cynnwys yn y polisi er mwyn helpu i hybu cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, dileu gwahaniaethu a hybu perthynas dda?

			<p>materion y gwyddys amdanynt yn ymwneud â symudedd corfforol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael ar y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Fe wnaeth yr ymgynghoreion a'r grŵp AEG Corfforaethol godi pryderon am faterion yn ymwneud â mynediad yn Ysgol Gwenffrwd – a ddaeth i'r amlwg mewn arolygon mynediad ac adborth am y safle. Bydd gweithwyr/rhieni/gofalwyr anabl yn cael anhawster i gael mynediad i Ysgol Gwenffrwd.</p> <p>Mae Llywodraethwyr yr Ysgol wedi cyflwyno mesurau dros dro er mwyn cynorthwyo rhieni anabl i gael mynediad i Ysgol Gwenffrwd.</p> <p>Bydd hyn o bosibl yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion, rhieni, gofalwyr ac athrawon anabl. Oni bai y byddant yn trosglwyddo i Ysgol y Llys, Prestatyn, sydd wedi'i moderneiddio ac sy'n gwbl hygyrch.</p>	<p>tebyg i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r dyletswyddau sydd ganddo yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n gweithio o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch ar gyfer y disgyblion, rhieni a gofalwyr, staff a llywodraethwyr. Bydd gan ddisgyblion sy'n dod o dan y diffiniad meddygol o "anabledd" ystod eang o anghenion a gofynion, ac mae polisïau pontio yn eu lle ar gyfer disgyblion sydd arnynt angen addasiadau. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn gweithio gyda disgyblion i ddod o hyd i ysgolion sydd wedi'u haddasu. Mae cyllideb ar gael i addasu ysgolion fel y gall disgyblion gael mynediad i'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n rhaid i addasiadau i adeiladu fod yn gymesur a rhesymol gan fod y gyllideb yn gwasanaethu Sir y Fflint i gyd a rhaid bodloni gofynion pob disgybl ag anabledd. Cydnabyddir nad yw Ysgol Gwenffrwd yn gwbl hygyrch. Caiff pob disgybl ag anabledd ei asesu ar sail unigol a chaiff newidiadau ac addasiadau perthnasol neu rhesymol eu gwneud fesul achos.</p> <p>Bydd yn rhaid gwneud addasiadau rhesymol os caiff unrhyw weithwyr eu hadleoli yn Ysgol Gwenffrwd a bydd angen i gynllun Mynediad at Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau gymryd rhan yn y drafodaeth. Oherwydd dyluniad yr ysgol ni fydd yn fforddiadwy i wneud yr ysgol yn gwbl hygyrch. Bydd yn rhaid ystyried yr addasiadau sydd eu hangen fesul achos.</p>	<p>Cyfeiriwyd eisoes at y materion sy'n ymwneud â mynediad yn Ysgol Gwenffrwd mewn dogfennau eraill a chawsant eu cydnabod yn yr adroddiad ymgynghori.</p>
--	--	--	--	---	--

	+effait h gadarn haol le/Na	- effaith negyddol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hybu'r effaith gadarnhaol*
Newid Rhyw (NRh)	Na	Na	le	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data am y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Nid oes data newid rhyw ar gael ar gyfer y staff.</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Fe wnaeth adborth gan y Grŵp Corfforaethol AEG dynnu sylw at yr effaith negyddol bosibl ar:</p> <p>Rieni/Gofalwyr/Brodyr a Chwirydd/Gweithwyr – efallai y bydd rhai unigolion wedi newid rhyw ac efallai na fyddant yn cael eu derbyn yn y gymuned leol. Efallai na fyddant yn cael cymaint o groeso mewn ysgol newydd.</p>	<p>Petai gan unrhyw ddisgyblion neu rieni/gofalwyr o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton y nodwedd warchoddedig hon byddent yn derbyn y cymorth bugeiliol/ teuluol priodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p> <p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Gymraeg Mornant gan gynnwys staff dysgu a chymorth, ac yn rhoi cymorth iddynt petai ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p>	<p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Addysg Stonewall. Rydym yn cynnig hyfforddiant i bob ysgol ar Gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr Stonewall a fydd yn rhoi offer, hyder a thechnegau i'r bobl sy'n cymryd rhan i hyfforddi staff eraill i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a Thrawsffobaidd.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn datblygu polisi ailbennu rhywedd ar gyfer ysgolion. Bydd hyfforddiant ar gael i'r ysgolion.</p>

	+effait h gadarn haol le/Na	-effaith negyddol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hybu'r effaith gadarnhaol*
Priodas a phartneriaeth sifil	N	N	le	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data am y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Yn ôl y gyfraith, ni all disgyblion o dan 16 oed briodi neu ffurfio partneriaeth sifil; yn achos disgyblion o dan 18 oed, rhaid cael caniatâd rhieni, felly ni fyddai'r nodwedd warchoddedig hon yn berthnasol.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Dengys yr ystadegau am y gweithlu fod y staff a ganlyn wedi datgan eu statws priodasol neu bartneriaeth sifil.</p> <p>Yn briod neu mewn partneriaeth sifil = 36.36%</p> <p>Heb ddatgan = 63.64%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes dim gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni /gofalwyr.</p> <p>Fe wnaeth adborth gan y Grŵp AEG Corfforaethol ymgynghorol dynnu sylw at:</p> <p>Rhieni/Gofalwyr/gweithwyr – petai'r ysgol yn cau a'r plant yn symud i ysgol newydd (cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg), mae'n bosibl y byddai agweddau negyddol at unrhyw rieni/gofalwyr/gweithwyr sydd mewn perthynas o'r un rhyw.</p>	<p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Gymraeg Mornant gan gynnwys staff dysgu a staff cymorth, ac yn rhoi cymorth iddynt petai ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Petai gan unrhyw rieni/gofalwyr o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton y nodwedd warchoddedig hon byddent yn derbyn y cymorth priodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rheini.</p>	<p>Mae gan bob ysgol o leiaf un Athro sy'n derbyn hyfforddiant drwy Stonewall Cymru. Cynigir lle hefyd i Lywodraethwyr Ysgolion. Dylai hyn gynorthwyo ysgolion i nodi unrhyw wahaniaethu neu fwlio a chymryd camau i fynd i'r afael eg ef.</p>

	+effait h gadarn haol le/Na	-effaith negyd dol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hybu'r effaith gadarnhaol*
Beichiogrwydd a mamolaeth	Na	Na	le	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data am y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Dengys yr ystadegau am y gweithlu fod canrannau'r staff sydd ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu ar hyn o bryd fel a ganlyn:</p> <p>Absenoldeb Mamolaeth = 9.09%</p> <p>Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol fod unrhyw aelodau staff yn feichiog.</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Ni chodwyd dim materion yn ystod yr ymgynghoriad.</p>	<p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Gymraeg Mornant yn cynnwys staff dysgu a chymorth, ac yn rhoi cymorth iddynt petai ganddynt y nodwedd warchoddedig hon i sicrhau bod unigolion sydd ar gyfnod mamolaeth yn derbyn y prif negeseuon yn ystod y broses.</p> <p>Petai gan unrhyw rieni/gofalwyr o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton y nodwedd warchoddedig hon byddent yn derbyn y cymorth priodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol amgen arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p>	Ddim yn gymwys
	+effaith gadarnh aol	-effaith negyddo l	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hybu'r effaith gadarnhaol*

	le/Na	le/Na				
Hil	Na	Na	le	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn cadarnhau fod 89% o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn Wyn-Prydeinig.</p> <p>Mae data'r CYBLD yn nodi fod llai na 10 disgybl yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn derbyn cymorth ar gyfer y Saesneg fel iaith Ychwanegol.</p> <p>Mae'r Gwasanaethau Cynhwysiant wedi cadarnhau fod carfan fach o ddisgyblion Sipsiwn/Teithwyr yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Dengys yr ystadegau am y gweithlu fod staff yn perthyn i'r grwpiau ethnig a ganlyn.</p> <p>Gwyn = 81.82%</p> <p>Heb ddatgan = 18.18%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Roedd yr adborth gan y Grŵp AEG Corfforaethol yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:</p> <p>Gall disgyblion o'r gymuned Deithiol gael eu bwlio os byddant yn symud i ysgol newydd, ac mae perygl na fyddant yn parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg ac yn trosglwyddo i ysgol cyfrwng Saesneg lleol.</p>	<p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi cymorth i blant nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt drwy'r tîm Saesneg fel iaith Ychwanegol sydd yn rhan o'r Gwasanaeth Cynhwysiant.</p> <p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Gymraeg Mornant yn cynnwys staff dysgu a chymorth, ac yn rhoi cymorth iddynt os oes ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Petai gan unrhyw rieni /gofalwyr o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton y nodwedd warchoddedig hon byddent yn derbyn cymorth priodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol leol arall a ddewisir gan y rhieni.</p> <p>Bydd yn rhaid i ysgolion newydd gael hyfforddiant ar ddiwylliant y Teithwyr os nad oes ganddynt eisoes brofiad o weithio gyda'r gymuned Deithiol.</p>	<p>Byddir yn cynnig darpariaeth Ysgolion Cynradd amgen a chymorth pontio, ar sail eu blwyddyn cwricwlwm, i ddisgyblion ar draws y gwahanol gefndiroedd ethnig.</p> <p>Mae gan y Gwasanaethau Cynhwysiant wasanaeth cymorth dynodedig ar gyfer y disgyblion rheini o'r gymuned Sipsiwn/Teithwyr sydd arnynt angen cymorth ychwanegol.</p>

	+effaith gadarnhaol le/Na	-effaith negyddol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hybu'r effaith gadarnhaol*
Crefydd / Cred	Na	Na	le	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data am y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Nid yw Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn ysgol enwadol, gysylltiedig.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Dengys yr ystadegau am y gweithlu fod crefydd neu gred y staff fel a ganlyn.</p> <p>Cristnogion = 45.45%</p> <p>Dim = 9.09%</p> <p>Heb ddatgan = 45.45%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Ni chodwyd dim materion yn ystod yr ymgynghoriad.</p>	<p>Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i fonitro'r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion ac ysgolion mewn perthynas â'r maes llafur Addysg Grefyddol a gytunwyd.</p> <p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Gymraeg Mornant yn cynnwys staff dysgu a staff cymorth, ac yn rhoi cymorth iddynt petai ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Petai gan unrhyw rieni /gofalwyr o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton y nodwedd warchoddedig hon byddent yn derbyn y cymorth priodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p>	<p>Mae Ysgolion Cynradd enwadol ac anenwadol ar gael ar gyfer plant 3 -11 oed yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych petai disgyblion yn dymuno cael mynediad at addysg ffydd os bydd Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cau.</p>

	+effait h gadarn haol le/Na	-effaith negyd dol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hybu'r effaith gadarnhaol*
Rhyw (<i>Dynion, menywod, bechgyn, merched</i>)	Na	Na	le	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn nodi fod 48 disgybl llawn amser yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (ac eithrio'r Blynyddoedd Cynnar a'r Meithrin), a bod</p> <p>21 (43.75%) = yn fechgyn</p> <p>27 (56.25%) = yn ferched</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Dengys yr ystadegau am y gweithlu fod canran y staff sy'n ddynion a menywod fel a ganlyn:</p> <p>Benywod = 100%</p> <p>Gwrywod = 0%</p> <p>Dengys yr ystadegau am y gweithlu fod canran y staff sy'n gweithio llawn amser neu ran amser fel a ganlyn:</p> <p>Rhan amser = 81.25%</p> <p>Llawn amser = 18.75%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p>Bydd unrhyw ddiswyddiadau yn effeithio ar fenywod gan fod 100% o'r gweithlu yn fenywod.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p>	<p>Caiff perfformiad ei fonitro yn ôl rhyw ar lefel ysgol a chymerir camau drwy Gynllun Gweithredu'r Ysgolion er mwyn rhoi sylw i unrhyw fylchau, gan gyfeirio cymorth i'r meysydd pwnc yn ôl yr angen.</p> <p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Gymraeg Mornant yn cynnwys staff dysgu a staff cymorth ac yn rhoi cymorth iddynt petai ganddynt y nodwedd warchoddedig hon. Bydd y broses o ymgynghori gyda'r gweithlu yn cynnwys cyfarfodydd unigol gyda'r gweithwyr a effeithir gan y cynigion.</p> <p>Petai gan unrhyw rieni/gofalwyr o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton y nodwedd warchoddedig hon byddent yn derbyn y cymorth priodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p>	Caiff perfformiad ei fonitro yn ôl rhyw ym mhob Ysgol Gynradd.

			<p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni /gofalwyr.</p> <p>Fe wnaeth yr ymgynghoriad godi'r materion a ganlyn:-</p> <p>Mae angen proffil o'r gweithwyr yn ôl rhyw ac yn ôl y rheini sy'n gweithio ar sail rhan amser/llawn amser er mwyn nodi'r effaith. Hefyd, mae'r pellter y mae pobl yn teithio i'r gwaith yn bwysig – os byddant yn cael eu hadleoli i swydd mewn ysgol wahanol</p> <p>Mae'n bwysig sicrhau bod pob gweithiwr a gaiff ei effeithio yn gwybod am y newidiadau a'r canlyniadau</p>		
--	--	--	--	--	--

	+effait h gadarn ahol le/Na	-effaith negyd dol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hybu'r effaith gadarnhaol*
Cyfeiriadedd Rhywiol	Na	Na	le	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data am y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Dengys yr ystadegau am y gweithlu fod cyfeiriadedd rhywiol y staff fel a ganlyn:</p> <p>Heterorywiol = 45.45%</p> <p>Heb ddatgan = 45.45%</p> <p>Yn well ganddynt beidio â dweud = 9.09%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Fe wnaeth yr adborth o'r ymgynghoriad godi'r un materion â'r rheini a nodwyd ar gyfer Ailbennu Rhywedd.</p> <p>Gall rhieni/gofalwyr/brodyr a chwirydd/gweithwyr- unigolion fod mewn perthynas lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol a gall y broses bontio fod yn heriol iddynt wrth symud i ysgol newydd.</p>	<p>Petai gan unrhyw ddisgyblion neu rieni/gofalwyr o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton y nodwedd warchoddedig hon byddent yn derbyn y cymorth bugeiliol priodol/teuluol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p> <p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Gymraeg Mornant yn cynnwys staff dysgu a staff cymorth, ac yn rhoi cymorth iddynt petai ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p>	<p>Mae'r Ysgolion Cynradd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Addysg Stonewall. Cynigir lle i bob ysgol ar Gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr Stonewall a fydd yn rhoi offer, hyder a thechnegau i'r bobl sy'n cymryd rhan i hyfforddi staff eraill ynglŷn â sut i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd.</p>

	+effait h gadarn haol le/ Na	-effaith negyddol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch chi hybu'r effaith gadarnhaol*
Yr iaith Gymraeg	Na	le/Na	le	<p>Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton wedi'i diffinio fel ysgol Cyfirwng Cymraeg.</p> <p>Mae asesiad manwl o'r effaith ar yr iaith Gymraeg i'w weld yn y brif ddogfen ymgynghori sydd ar gael trwy ddilyn y cysylltiad a ganlyn http://www.flintshire.gov.uk/moderneiddioysgolion</p> <p>Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, Ysgol y Llys, Prestatyn ac Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon wedi'u categorio fel Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Cymunedol ac felly ni fydd dim effeithiau negyddol amlwg ar yr iaith Gymraeg os bydd rhieni/gofalwyr yn parhau i anfon eu plentyn/plant i un o'r ysgolion amgen arfaethedig cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod fod risg petai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau y gallai rhieni a disgyblion ddewis peidio â theithio i ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ymhellach gan ddewis mynd i ysgol cyfrwng Saesneg sy'n agosach at eu cartrefi, ac y gallai hyn gael effaith negyddol ar nifer y disgyblion a gaiff eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag os bydd rhieni yn ymroddedig i roi addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant ac yn eu hanfon i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal yna ni fydd cau'r ysgol yn cael unrhyw effaith.</p> <p>Fe wnaeth adborth yr ymgynghoriad dynnu sylw at y ffaith y gallai'r cynnig arwain at ymlyniad</p>	<p>Caiff pob Ysgol ei monitro'n rheolaidd gan GwE, y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, ac mae Estyn yn arolygu'r ysgolion.</p> <p>Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, Ysgol y Llys, Prestatyn ac Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon oll wedi'u categorio fel ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg felly nid oes unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar yr iaith Gymraeg os bydd rhieni/gofalwyr yn parhau i anfon eu plentyn/plant i un o'r ysgolion cynradd Cymraeg amgen arfaethedig.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Urdd a Menter Iaith Sir y Fflint i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>A fydddech cystal â darllen y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori i gael mwy o wybodaeth am hyn.</p> <p>http://www.flintshire.gov.uk/moderneiddioysgolion</p>

				cymunedol o fewn y gymuned Gymraeg ei hiaith.		
	+effait h gadarn haol le/Na	-effaith negyd dol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hybu'r effaith gadarnhaol*
Eraill <i>(effeithiau ychwanegol eraill megis hawliau dynol, tlodi, pobl yn byw mewn ardaloedd gwledig)</i>	Na	Na	le	<p>Defnyddir Ysgol Gymraeg Mornant, Picton gan y grwpiau cymunedol a ganlyn:-</p> <p>Cyfarfodydd codi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2016, Dysgu Teulu</p> <p>Mae gan 11 o ddisgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Mae data mylocalschool.com yn nodi canran o 14% dros gyfartaledd o 3 blynedd yn 2014.</p> <p>Effeithiau ariannol ar rieni/gofalwyr a fydd yn gorfod prynu gwisgoedd ysgol newydd.</p> <p>Ystyrir bod Ysgol Gymraeg Mornant, Picton mewn cymuned wledig, petai'r cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cael ei gymeradwyo gallai hyn gael effaith ar y gymuned. Cwblhawyd asesiad o'r effaith ar y gymuned a gellir ei weld trwy ddilyn y cysylltiad a ganlyn:-</p> <p>http://www.flintshire.gov.uk/moderneiddioysgolion</p>	<p>Nid oes cynlluniau ar gyfer safle Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, ond gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran o'r adeilad i grŵp cymunedol cyfansoddiadol lle gallant ddangos angen a'r gallu i gymryd drosodd y gwaith o reoli'r safle.</p> <p>Mae cynllun cyfnewid gwisgoedd ysgol ar gael i ddisgyblion Sir y Fflint. Nod y Cynllun Cyfnewid Gwisgoedd Ysgol yw annog pobl Sir y Fflint i ailgylchu a chyfrannu gwisgoedd ysgol diangen neu sydd heb eu defnyddio yn hytrach na'u rhoi yn y bin. Caiff y gwisgoedd ysgol hyn eu gwerthu yn siopau hosbis Ty'r Eos ar draws Sir y Fflint am bris llawer is nag yn siopau'r stryd fawr.</p> <p>Mae'n eithaf tebygol y bydd angen gwisgoedd ysgol newydd ar y rhan fwyaf o ddisgyblion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd, felly efallai y bydd angen prynu gwisg ysgol newydd beth bynnag, ni waeth pa ysgol y bydd y disgybl yn mynd iddi.</p>	<p>Fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori caiff gwaith ychwanegol ei wneud gyda'r grŵp hwn o ddisgyblion a rhieni er mwyn lliniaru unrhyw effaith bosibl.</p>

<p>Os na chymerir unrhyw gamau i ddileu neu liniaru effaith negyddol/andwyol, dylech gyfiawnhau'r rhesymau am hynny</p>	<p>Ddim yn gymwys</p>
--	-----------------------

4. Caffael

<p>A fydd y polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan contractwyr? Os bydd, nodwch pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynnwys y gofyniad i ystyried y dyletswyddau cydraddoldeb ym mhob cam o'r broses gaffael.</p> <p>Dylech feddwl am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y broses dendro a manylebau • y broses ddyfarnu • cymalau contractau • mesurau perfformiad, a mesurau monitro a pherfformiad. 	<p>Ddim yn gymwys</p>
--	-----------------------

5. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

<p>Sut y byddwch yn monitro effaith ac effeithlonrwydd y polisi newydd?</p> <p>Gallai hyn gynnwys addasiadau neu estyniadau i systemau monitro presennol, amserlenni perthnasol ac ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb unwaith y bydd y polisi wedi bod ar waith am flwyddyn. Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol a wneir yng nghyswllt y polisi (e.e. arolwg, proses fonitro benodol ac ati).</p>	<p>Cynnal adolygiad o wybodaeth arolwg CYBLD ar gyfer safleoedd ysgol ar wasgar</p> <p>Ionawr 2016</p> <p>Ionawr 2017</p> <p>Cynnal adolygiad, gyda'r Gwasanaethau Cynhwysiant, o effaith symud disgyblion o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton i Ysgolion Cynradd amgen eraill gerllaw.</p> <p>Cynnal adolygiad o'r dangosyddion cenedlaethol sy'n seiliedig ar berfformiad, gyda GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion) ac Estyn.</p> <p>Cynnal adolygiad o ddangosyddion perfformiad CSCA (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg).</p> <p>Cynnal adolygiad o'r data nodweddion gwarchoddedig a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori.</p> <p>Monitro nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.</p>
---	--

Rhowch fanylion am sut y cyhoeddir canlyniadau'r asesiad effaith, gan gynnwys canlyniadau ymgynghori a gwybodaeth fonitro os yw'n berthnasol.

Cyhoeddir crynodebau o ganlyniadau pob asesiad effaith ar wefan y Cyngor. Gallech hefyd eu cyhoeddi mewn cyfryngau perthnasol eraill.

Cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint

Darparu'r ysgol â chysylltiad i wefan Cyngor Sir y Fflint

6. Cynllun Gweithredu

Ceir cyfle isod i nodi sut y byddir yn lliniaru unrhyw effaith negyddol. Gallwch restru sut y byddwch yn rhoi sylw i unrhyw fylchau yn y polisi. Edrychwch yn ôl ar gamau 1 – 7 o'r AEG gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yn y cynllun isod. Dylech sicrhau bod pob cam gweithredu wedi'i restru ynghyd â dyddiad targed a'i ddynodi i aelod staff a enwir.

Dylid cynnwys y camau gweithredu hyn yng nghynlluniau'r Gyfarwyddiaeth a'r Gwasanaeth.

Cam gweithredu	Swyddog â Chyfrifoldeb	Erbyn	Cynnydd
Cyhoeddi fersiwn 2 AEG ³	Damian Hughes	Ebrill 2016	

³ bydd yn rhaid cyhoeddi crynodebau o'r AEGau lle ceir effaith sylweddol

7– Cymeradwyo

Cam olaf yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cymeradwyo'r ddogfen yn ffurfiol fel aseiad cyflawn, trwyadl a chadarn


Aseswyd y polisi hwn yn llawn mewn perthynas â'i effeithiau posibl ar gydraddoldeb a rhoddwyd sylw i bob pryder perthnasol.

(Ar ôl i chi lenwi'r AEG, llofnodwch isod a'i anfon at gynrychiolydd y Gyfarwyddiaeth Cydraddoldeb)


Aelodau Tîm yr Aseiad

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Jennie Williams	Swyddog Prosiect	Cyngor Sir y Fflint
Sarah Thomas	Swyddog Prosiect	Cyngor Sir y Fflint

Gwirio Ansawdd: Gwiriwyd y ddogfen gan:

Enw: Damian Hughes
Teitl Swydd: Uwch Reolwr – Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion
Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuencid
Dyddiad: Ebrill 2016
Llofnod: 

Lefel Cyfarwyddwr (cymeradwyo)

Enw: Ian Budd
Teitl Swydd: Prif Swyddog
Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuencid
Dyddiad: Ebrill 2016
Llofnod: 

Ar ôl eu llenwi, anfonwch y dogfennau at Steph Aldridge, Polisi a Pherfformiad, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk